

**Coflyfr  
Cydraddoldeb a  
Hawliau Dynol**  
2020/21

## Cynnwys

Rhagair gan Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Cefndir

Erthygl 2

Erthygl 3

Erthygl 5

Erthygl 6

Erthygl 8

Erthygl 9

Erthygl 10

Erthygl 14

## Achosion

Adroddiadau diddordeb cyhoeddus a gyhoeddwyd o dan a16 Deddf OGCC 2005

201900014 [Cynllunio - Gorfodi]

Adroddiadau diddordeb cyhoeddus a gyhoeddwyd o dan a23 Deddf OGCC 2019

201902686 [Iechyd – Anawsterau Dysgu ac Offthalmoleg]

Adroddiadau heb ddiddordeb cyhoeddus a gyhoeddwyd o dan 21 Deddf OGCC 2005 ac adran 27 Deddf OGCC 2019 (a gadarnhawyd yn llawn neu'n rhannol)

201707248 [Iechyd – gofal mamolaeth]

201701203 [Addysg AAA]

201803094 [Iechyd – y drefn briodol a bywyd teuluol ar ddiwedd bywyd]

201807750 a 201807994 [Iechyd – diwedd bywyd]]

201802486 [Iechyd – claf oedrannus ar risg o gwympiadau]

201806802 [Gwasanaethau Cymdeithasol a darpariaeth gofal]

201806111 [Iechyd – cyfathrebu a diwedd bywyd]

201903187 [Iechyd – Deddf Cydraddoldeb – gofal claf gydag anabledau dysgu]

201803704 a 201803703 [Iechyd – Deddf Cydraddoldeb – methiant i ddarparu addasiad rhesymol, tynnu oddi ar y rhestr cleifion a gwahaniaethu honedig]

201902717 [Iechyd – bywyd preifat gan gynnwys iechyd meddwl]

## Tudalen

04

06

06

06

07

07

07

07

08

08

09

10

10

11

11

13

13

14

15

16

16

17

17

18

19

21

## **Tudalen**

### **Setliadau fel dewis arall i ymchwiliadau**

**23**

201906728 [Gwasanaethau cymdeithasol oedolion – gwasanaethau anabledd]

**23**

### **Ni chadarnhawyd**

**25**

201803425 [Iechyd – iechyd meddwl]

**25**

## Rhagair

Y llynedd cyhoeddwyd yr argraffiad agoriadol o'r llyfr achosion hwn sy'n cyflwyno achosion lle'r wyf wedi credu'n benodol ei bod yn briodol cyfeirio at faterion sy'n gysylltiedig â chydaddoldeb a hawliau dynol. Rwy'n falch o ddatgan y cafodd ei groesawu fel dull o esbonio pryd a sut mae fy swyddfa'n ystyried materion o'r fath a fy meddyliau mewn achosion o'r fath. Fel y nodwyd yn flaenorol, gwnaf hynny pan fydd ystyriaethau o'r fath naill ai'n brif ffocws cwyn, neu pan fyddant yn ychwanegu gwerth y tu hwnt i egwyddorion TPCUY<sup>1</sup> egwyddorion yr wyf i, a fy nghyd Ombwdsmon, bob amser yn eu hyrwyddo.



Fel yr esboniwyd yr adeg hon y llynedd, nid fy rôl i yw darganfod yn bendant bod achos o dorri hawliau dynol rhywun, neu y cafwyd achos gwirioneddol o wahaniaethu, er hynny, byddaf yn gwneud sylw os byddaf yn credu bod hawliau rhywun wedi'u cyfaddawdu gan weithredoedd neu ddiffyg gweithredu corff cyhoeddus o dan fy awdurdodaeth. Pan fydd yn bosibl a pherthnasol i'r gŵyn, byddaf hefyd yn argymhell gwybodaeth benodol am hawliau dynol a materion cydraddoldeb.

Er fy mod yn nodi'r Erthyglau penodol o'r Confensiwn a'r cefndir cyfreithiol sy'n berthnasol i'r achosion yn y llyfr achosion hwn, rwy'n credu bod y cyhoedd eleni, fwy nac unrhyw flwyddyn arall, wedi dod yn fwy ymwybodol o hawliau dynol. Yn sgil y pandemig Covid-19, rydym i gyd wedi gweld yr hawliau a'r rhyddid rydym wedi'u mwynhau'n draddodiadol yn cael eu cyfyngu. Mae hyn yn berthnasol yn benodol i Erthygl 8, a'r hawl i fwynhau bywyd teuluol sydd wedi'i gyfyngu ers Mawrth 2020 gyda chyfyngiadau i gwrdd ag aelodau'r teulu nad ydym yn byw gyda hwy fel arfer. Mae'n enghraifft y gall pawb uniaethu ag ef lle mae'r wladwriaeth, drwy ddefnyddio ei phwerau deddfwriaethol<sup>2</sup> wedi atal llawer ohonom rhag rhyngweithio gyda'n teulu'n ehangach ac, yn anffodus, cafodd perthnasau agos eu hatal rhag bod gyda'u hanwyliaid yn ystod eu horiau olaf. Fel y nodir isod, mae Erthygl 8 yn hawl gymwysedig lle gallai'r wladwriaeth gwtogi ar ein mwynhad o'r hawl hwn er budd y cyhoedd yn ehangach. Mae'r pandemig Coronafeirws, a'r angen i geisio atal ei ledaeniad i'r boblogaeth ehangach, yn enghraifft fodern o gyfyngu ar hawliau Erthygl 8 sydd wedi effeithio ar bob un ohonom.

Yn ystod cyfnod y pandemig gwelwyd gweithred arall gan y wladwriaeth (drwy'r heddlu) yn erbyn hawliau unigolyn yn arwain at ymateb byd-eang drwy'r mudiad Mae Bywydau Du o Bwys. Wrth gyhoeddi ein camau gweithredu o dan ein Cynllun Cydraddoldeb ar gyfer 2020/2021, yn erbyn cefndir yr hyn sydd wedi digwydd, rydym wedi creu "Siarter Hil ac Ethnigrwydd yn y Gweithle" sy'n cynnwys ymrwymadau penodol ychwanegol i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn y gwaith ac yn ein darpariaeth gwasanaeth. Mae gwybodaeth bellach am y Siarter ar gael yma:

<https://www.ombwdsmon.cymru/2020/08/13/siarter-hil-ac-ethnigrwydd-yn-y-gweithle/>

<sup>1</sup>Tegwch, Parch, Cydraddoldeb, Urddas ac Ymreolaeth yw'r gwerthoedd craidd sy'n sail i hawliau dynol.

<sup>2</sup>Deddf Coronafeirws 2020 a'i holl Reoliadau ategol.

Daeth y Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2019 i rym o'r diwedd y llynedd, gyda'i phwerau newydd sy'n cynnwys Ymchwiliadau ar ei Liwt ei Hun er budd y cyhoedd. Lansiwyd yr ymgynghoriad ar y pwnc arfaethedig ar gyfer yr 'Ymchwiliad ar ei Liwt ei Hun' cyntaf - asesiadau ac adolygiadau digartrefedd - ym mis Mawrth 2020 yn wreiddiol. Cafodd yr ymgynghoriad ei oedi oherwydd pandemig COVID-19 a bydd yn cael ei ail-lansio ar 23 Medi. Mae'r ymchwiliad yn ceisio adlewyrchu'r sefyllfa sydd ohoni yng Nghymru yn awr a bydd hefyd yn ystyried yr ymateb i ddigartrefedd yn ystod y pandemig yn awr.

Rwy'n ymfalchio wrth adlewyrchu ar y gwaith mae fy swyddfa wedi'i wneud i roi sylw blaenllaw i hawliau dynol a materion cydraddoldeb yn ystod fy nghyfnod yn y swydd. Wrth i ni ddechrau ar y cyfnod a elwir "y normal newydd", rwy'n gobeithio y bydd ein profiadau cyffredinol diweddar yn sicrhau nad ydym yn anghofio'r egwyddorion sylfaenol o ddyngarwch ac urddas sy'n cael eu cyflwyno yn y Confensiwn.

## Cefndir

Fel Ombwdsmon, rwy'n ymrwymedig i egwyddorion statudol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a byddaf yn cydymffurfio â'r dyletswyddau a osodir arnaf, a'r ysbryd a fwriadwyd, gan y canlynol:

- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Erthyglau'r Comisiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) fel y'u cynhwysir yn y gyfraith gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 (HRA) a
- Egwyddorion TPCUY (Tegwch; Parch; Cydraddoldeb; Urddas, Ymreolaeth) – y gwerthoedd craidd sy'n sail i hawliau dynol.

Wrth ymdrin â chwynion, rwyf hefyd yn ystyried statudau eraill sydd wedi'u cysylltu'n gynhenid â'r uchod, e.e. Deddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd) a Mesur Iechyd Meddwl Cymru. Rwyf hefyd yn ystyried Confensiynau eraill perthnasol, e.e. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989 ac, yng Nghymru, Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru 2014.

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn ymgorffori'r hawliau a'r rhyddid fel yr amlinellwyd yn Siarter Hawliau Dynol Ewrop i gyfraith ddomestig y DU. Mae rhai ohonyn nhw yn hawliau **diamod**, sy'n golygu y dylai'r dinesydd fod yn rhydd i'w mwynhau, ac ni all y wladwriaeth byth ymyrryd â hynny. Ceir rhai hawliau **cyfyngedig**, sy'n golygu y gellid ymyrryd â nhw mewn rhai amgylchiadau (fel ar adegau o ryfel neu argyfwng). Yn olaf, mae eraill yn hawliau **amodol**, sy'n golygu y gall y wladwriaeth ymyrryd yn gyfreithiol â nhw mewn rhai sefyllfaoedd – e.e. er mwyn gwarchod hawliau dinasyddion eraill. Yr hawliau mwyaf cyffredin sy'n ymddangos yn y cwynion a ystyrir gan fy swyddfa yw'r canlynol:

### Erthygl 2 - yr hawl i fyw – hawl ddiamod

Mae'r erthygl hon yn cynnwys gwarchod bywyd gan awdurdodau cyhoeddus a gall fod yn berthnasol i'w hystyried lle mae honiad bod marwolaeth wedi digwydd ac roedd modd ei hosgoi, darparu triniaeth sy'n arbed bywyd neu oedi wrth roi triniaeth. Mae'n rhoi rhwymedigaethau cadarnhaol (i wneud rhywbeth) neu rwymedigaethau negyddol (peidio â gwneud rhywbeth) fel ei gilydd ar gyrff cyhoeddus.

### Erthygl 3 - Hon yw'r hawl o ryddid rhag arteithio neu driniaeth neu gosb greulon, annynol neu diraddiol – hawl ddiamod

Diffinnir artaith fel poen neu ddioddefaint difrifol sy'n cael ei achosi yn fwriadol ar rywun. Mae triniaeth annynol yn achosi dioddefaint corfforol neu ofid meddwl, ac felly gellid ei weld fel creulon neu farbaraidd ond nid oes angen iddo fod yn fwriadol. Mae triniaeth ddiraddiol yn ofnadwy o ddarostyngol neu'n ddi-urddas ac, unwaith eto, nid oes angen iddo fod yn fwriadol. Er mwyn bodloni meini prawf Erthygl 3, byddai'r driniaeth yn debygol o fod angen bod yn berthnasol am gyfnod estynedig a gall gynnwys esgeuluso dyletswyddau, defnyddio ataliaeth a thriniaeth yn

erbyn dymuniadau'r unigolyn. Mae'r Llysoedd wedi gosod trothwy uchel ar gyfer Erthygl 3, ond gall ystyriaethau o'r fath yn aml gael eu gweld yng nghyd-destun Erthygl 8 (yr hawl i barchu bywyd preifat a bywyd teuluol – gweler isod) oherwydd bod yr effaith ar yr unigolyn yn hanfodol yma.

### **Erthygl 5** - Yr hawl i ryddid a diogelwch – **hawl gyfyngedig**

Gall yr erthygl hon fod yn berthnasol pan mae unigolyn yn cael ei gadw mewn rhyw ffordd – h.y. nid ydyn nhw'n rhydd i adael. Rhoddir ystyriaeth i'r cyd-destun a'r gyfraith – e.e. gall unigolyn gael ei amddifadu o'i ryddid yn gyfreithlon yn dilyn euogfarn a dedfryd gan y llysoedd. Mewn lleoliadau iechyd meddwl neu gartrefi gofal, byddem yn ystyried y diogelwch gweithdrefnol a sefydlwyd cyn i unrhyw gadw ddigwydd, fel y drefn briodol o dan Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. A yw'r unigolyn wedi gallu herio'r penderfyniad hwnnw – e.e. mynediad at y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl?

### **Erthygl 6** - Yr hawl i gael treial teg – **hawl ddiamod**

Mae'r hawl i gael treial teg yn ymwneud â phenderfyniadau ynglŷn â hawliau sifil neu wrth ymdrin â chyhuddiad troseddol. Dylai cyrff cyhoeddus gwrdd â'r gofyniad hwn yn ogystal yn eu prosesau ymdrin â chwynion yn nhermau tegwch trefniadol. A yw'r awdurdod cyhoeddus wedi darparu penderfyniad rhesymegol, fel bod rhywun yn gwybod y sail drosto ac yn gallu penderfynu a ddylid ei herio ymhellach (gan unrhyw broses apeladau)? A yw cyfansoddiad corff/panel penderfynu yn sicrhau tegwch a didueddrwydd? Gellir cyfyngu hawl i dreial cyhoeddus os yw eithrio'r cyhoedd yn angenrheidiol i ddiogelu rhai buddiannau neu os oes hawl i symud i dribiwnlys sy'n cydymffurfio â'r gofyniad hwnnw.

### **Erthygl 8** - Yr hawl i barchu bywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth – **hawl amodol**

Mae'r erthygl hon yn gysylltiedig yn agos ag egwyddorion TPCUY, sef urddas, parch ac ymreolaeth. Gall gynnwys materion cyfeiriadedd rhywiol/rhyw, yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sy'n cael ei chadw am unigolyn neu'r hawl i fyw yn annibynnol a gwneud dewisiadau. Mae hawl yn bodoli i fwynhau eich cartref eich hun heb iddo gael ei effeithio gan sŵn neu lygredd a mwynhau byw fel teulu, lle y bo'n bosibl. Fel y nodwyd uchod, gall orgyffwrdd yn sylweddol â'r hawliau a osodwyd yn Erthygl 3 mewn materion o urddas.

### **Erthygl 9** - Yr hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd – **hawl ddiamod (a chyfyngedig)**

Tra bod yr hawl i **feddu** ar gred grefyddol yn **ddiamod**, ceir achosion pan ellir **ymyrryd** â'r hawl i'w dangos fel bod yr agwedd honno yn hawl **gyfyngedig** - e.e. byddai disgybl yn dymuno gwisgo math o wisg ffydd draddodiadol yn dangos ei grefydd. Fodd bynnag, os oes gan yr ysgol gôd iwnifform caeth, yna gallai fynnu bod y disgybl yn gwisgo'r iwnifform (ac felly yn ymyrryd â dangos ei grefydd). Er hynny, gall barhau i gynnal ei gredoau crefyddol. Mae hawl i gael addysgu plant yn unol â chredoau crefyddol, er nad oes dyletswyddau ar awdurdodau i ddarparu ysgolion crefyddol ar wahân os gofynnir amdanyn nhw. Dylai cyrff gofal iechyd ddiogelu hawl yr unigolyn i ddangos credoau crefyddol, lle mae'n ymarferol i gwrdd â'r holl ofynion.

### **Erthygl 10** - Yr hawl i ryddid mynegiant – **hawl amodol**

Mae gan bawb hawl i fod â barn a mynegi safbwyntiau hyd yn oed os ydyn nhw ar adegau yn amhoblogaidd. Mae ymyrryd â nhw yn gallu bod yn angenrheidiol ar gyfer diogelwch y cyhoedd, neu er mwyn osgoi datgelu gwybodaeth a dderbyniwyd yn gyfrinachol.

### **Erthygl 14** - Gwahardd gwahaniaethu – **gellir ei defnyddio gyda hawliau eraill yn unig**

Mae gan yr hawl hon gysylltiad agos â Deddf Cydraddoldeb, ac nid yw'n annibynnol ac felly gellir ei defnyddio yn unig os yw'n gysylltiedig ag un o'r Erthyglau hawliau dynol eraill.



## Cynnwys

## tudalen

Adroddiadau diddordeb cyhoeddus a gyhoeddwyd o dan a16 Deddf OGCC 2005	<b>10</b>
Adroddiadau diddordeb cyhoeddus a gyhoeddwyd o dan a23 Deddf OGCC 2019	<b>11</b>
Adroddiadau heb ddiddordeb cyhoeddus a gyhoeddwyd o dan 21 Deddf OGCC 2005 ac adran 27 Deddf OGCC 2019 (a gadarnhawyd yn llawn neu'n rhannol)	<b>13</b>
Setliadau fel dewis arall i ymchwiliadau	<b>23</b>
Ni chadarnhawyd	<b>25</b>

## Achosion

### Adroddiadau diddordeb cyhoeddus a gyhoeddwyd o dan a16 Deddf OGCC 2005

**201900014** [Cynllunio - Gorfodi]

#### Cyngor Sir y Fflint

Cwynodd landlord (“y Landlord”) ar ran ei denant, Mr R, bod y Cyngor wedi methu, rhwng 2014 a 2019, â chymryd camau amserol a phriodol i ddelio â golchfa geir a sefydlwyd heb ganiatâd cynllunio. Esboniodd y Landlord bod Mr R wedi gorfod dioddef sŵn cyson yn yr olchfa geir 7 niwrnod yr wythnos, yn hwyr i'r nos, ac ni allai ddefnyddio ei ardd heb gael ei orchuddio mewn dŵr/cemegau'r chwistrell golchi ceir. Dywedodd y Landlord bod hyn, yn ogystal â bod yn Niwsans Statudol, wedi cael effaith andwyol ar fwynhad Mr R o'i gartref. Ar ben hynny, roedd y sefyllfa wedi achosi i Mr R “deimlo o dan straen mawr” ac mae'n dioddef gorbryder ac iselder yn awr.

Canfu ymchwiliad yr Ombwdsmon, er bod y Cyngor wedi nodi yn 2014 bod yr olchfa geir yn achosi Niwsans Statudol, fe gymerodd 18 mis cyn agor ffeil achos gan ei isadran gorfodi. Yna cymerodd 13 mis arall i'r Cyngor gyflwyno Hysbysiad Atal. Er bod yr olchfa geir wedi parhau i weithredu yn ystod y cyfnod hwn, parhaodd y Niwsans Statudol, gan fynd yn groes felly i'r Hysbysiad Atal, fe fethodd y Cyngor â gweithredu. O ganlyniad, bu'n rhaid i Mr R ddioddef lefelau sŵn sylweddol, cyson, aflonyddgar ac ymwithiol a chwistrell dŵr am nifer o flynyddoedd.

O safbwynt hawliau dynol, roedd yr Ombwdsmon o'r farn:

“Yr wyf o'r farn na roddodd y Cyngor sylw dyledus i hawl Mr R o dan Erthygl 8....i fwynhau ei gartref yn dawel a heddychlon wrth fynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd. Mae hyn yn anghyfiawnder sylweddol i Mr R ac i'r Landlord, o safbwynt rhwymedigaethau'r Landlord i Mr R. Mae'r ffaith bod y methiannau wedi parhau am 4 mlynedd yn golygu bod yr anghyfiawnder i Mr R yn fwy difrifol fyth.”

Cyflwynodd yr Ombwdsmon nifer o argymhellion. Roedd y rhain yn cynnwys y Cyngor yn adolygu ei Bolisi Gorfodi Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd, gwella'r prosesau ar gyfer cydweithredu a chydweithio yn ogystal ag adolygu ei sianelau cyfathrebu ac uwchgyfeirio mewnol er mwyn annog perchnogaeth ac atebolrwydd ac osgoi “diwylliant o feio”. Gofynnwyd i'r Cyngor adlewyrchu hefyd ar sut y gellir ymgorffori'r ystyriaeth hawliau dynol yn ei arfer wrth benderfynu i gymryd camau gweithredu gorfodi ai peidio, gan gyfeirio'n benodol at reolaeth ac ymchwiliadau cynllunio i Niwsans Statudol.

Mae dolen i gopi llawn yr adroddiad diddordeb cyhoeddus uchod ar gael yma:

<https://www.ombwdsmon.cymru/reports/cyngor-sir-y-flint-201900014/>

## Adroddiadau diddordeb cyhoeddus a gyhoeddwyd o dan a23 Deddf OGCC 2019

**201902686** [lechyd – Anawsterau Dysgu ac Offthalmoleg]

### **Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe**

Cwynodd Mrs X bod gofal llygaid annigonol wedi cael ei roi i'w merch, Y, yng ngoleuni ei hymddygiad hunan-niweidiol hysbys (a oedd yn cynnwys taro ei hun ar y pen a'r wyneb, gan achosi cleisiau). Mae Y yn oedolyn ifanc sy'n agored i niwed sydd â diagnosis o Awtistiaeth Annodweddiadol, Anableddau Dysgu ac anawsterau Iechyd Meddwl. Roedd Y yn byw mewn Uned breswyl arbenigol i bobl ag anawsterau tebyg, na ellir eu rheoli gan wasanaethau cymunedol. Roedd Mrs X yn pryderu na chafodd anaf llygad Y ei ddiagnosisio'n gynt.

Ym Mehefin 2018, nododd y staff bryderon ynghylch llygad dde Y, a oedd angen ei fonitro, ond nid oes unrhyw dystiolaeth bod y monitro wedi digwydd, na bod y pryderon hyn wedi'u trosglwyddo i'r staff clinigol. Pan godwyd pryderon ym mis Medi ynglŷn â llygad Y, gofynnwyd am adolygiad brys a chafodd Y ei chymryd i'r Uned Llygaid Brys mewn ysbyty a chafodd ddiagnosis o ddatodiad llwyr y retina a chataract trawmatig i'r llygad dde.

Canfu'r Ombwdsmon na dderbyniodd Y lefel briodol o ofal llygaid ac ni chafodd y cyfle i dderbyn atgyfeiriad amserol ac adolygiad clinigol. Achosodd hyn anghyfiawnder i Y. Roedd yn anghyfiawnder sylweddol hefyd i Mrs X, oherwydd bydd wastad elfen o amheuaeth ynglŷn ag a allai'r canlyniad fod wedi bod yn wahanol i Y, a gollodd ei golwg yn ei llygad dde yn y pen draw. Ni fu'n bosibl cadarnhau hynny'n bendant. Canfu fethiant cyfathrebu difrifol hefyd am na chafodd Mrs X y wybodaeth ddiweddaraf. Roedd y newyddion am gyflwr llygad Y yn sioc i Mrs X a achosodd fraw a gofid iddi, a oedd yn anghyfiawnder iddi. Cadarnhaodd yr Ombwdsmon gŵyn Mrs X.

Mae'r Ombwdsmon yn cydnabod bod unigolion sydd mewn lleoliadau gofal sefydliadol ymhlith y rhai mwyaf agored i niwed yn y gymdeithas, ac felly, maent ymhlith y rhai mwyaf agored i niwed o ran y perygl sy'n wynebu eu hawliau dynol. Oherwydd y methiannau yng ngofal Y, canfu y bu ymgysylltiad â'i hawliau Erthygl 8, gan nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi dangos yn ddigonol ei fod wedi sicrhau bod anghenion oedolyn ag anableddau dysgu, fel Y, wedi cael eu parchu yn ddigonol.

“Roedd anawsterau dysgu Y yn golygu ei bod yn gwbl ddibynnol ar y rhai a oedd yn gofalu amdani.... [ac felly] dylai fod wedi rhoi mwy o bwyslais ar y staff i sicrhau bod y symptomau a ddangosodd yn destun ymchwiliad pellach. Yn y cyd-destun hwn rwy'n cyhoeddi...adroddiad diddordeb cyhoeddus oherwydd mae gwersi ehangach i bob corff...sy'n gofalu am oedolion agored i niwed ag anawsterau dysgu eu dysgu o'r achos hwn. Maent ymhlith y bobl mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas a gellir dadlau y dylai cyrff cyhoeddus fod yn fwy gwyliadwrus er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu cyflawni, yn arbennig pan gall eu bregusrwydd ei gwneud yn anoddach iddynt esbonio neu gyfleu pryderon”.

Cyflwynodd yr Ombwdsmon nifer o argymhellion i'r Bwrdd Iechyd ar fonitro cyflwr corfforol claf, cyfathrebu a hyfforddiant staff. Argymhellodd hefyd bod ei adroddiad yn cael ei rannu gyda'r gwasanaeth Anableddau Dysgu a chyfeiriodd at y Bwrdd, a thîm Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y Bwrdd Iechyd, i nodi sut y gellir ymgorffori hawliau dynol ymhellach mewn arfer clinigol a nodi hyfforddiant perthnasol ar hawliau dynol i'r Nyrsys ar yr Uned (ac ar draws y Bwrdd Iechyd).

Mae dolen i gopi llawn yr adroddiad diddordeb cyhoeddus uchod ar gael yma:

<https://www.ombwdsmon.cymru/reports/bwrdd-iechyd-prifysgol-bae-abertawe-201902686/>

## Adroddiadau heb ddiddordeb cyhoeddus a gyhoeddwyd o dan 21 Deddf OGCC 2005 ac adran 27 Deddf OGCC 2019 (a gadarnhawyd yn llawn neu'n rhannol)

**201707248** [lechyd – gofal mamolaeth]

### **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Cwynodd Ms B nad oedd y staff wedi dilyn ei chynllun geni, nad oeddent wedi parchu ei dymuniadau a'i diwylliant - yn ystod genedigaeth ei babi ac wrth ddarparu ôl-ofal. Roedd Mrs B hefyd o'r farn ei bod wedi'i "phlagio" i roi cydsyniad i archwiliad y wain pan gyrhaeddodd yr ysbyty cyn derbyn toriad Cesaraidd yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. Mae Ms B yn Fwslim ac yn figan. Roedd yn bryderus bod y weithdrefn angenrheidiol o natur bersonol wedi'i chynnal gan feddyg gwrywaidd ar ôl yr enedigaeth a dywedodd nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi rhoi sylw dyledus i'w "dymuniadau penodol ac anghenion diwylliannol i gael ymyrraeth fenywaidd." Cwynodd Ms B bod ei babi wedi'i adael heb oruchwyliaeth ac wedi derbyn llaeth fformiwla (yn groes i'w chynllun geni). Dywedodd ei bod yn parhau i ddioddef "gofid mawr", ddwy flynedd yn ddiweddarach ynghylch digwyddiadau'r diwrnod hwnnw a oedd wedi achosi "...gofid trawmatig estynedig ac rwy'n deffro mewn dagrau wrth gofio pan gafodd [y babi] ei chymryd oddi arnaf....ac a gafodd ei gadael ar ei phen ei hun...[ac] ei bod wedi derbyn llaeth fformiwla".

O ystyried y materion a godwyd gan Ms B, fe ystyriodd ymchwiliad yr Ombwdsmon weithredoedd a gofal y Bwrdd Iechyd, gyda hawliau'r Confensiwn mewn golwg. Fodd bynnag, nododd na allai lunio canfyddiadau pendant ynglŷn ag unrhyw achos o dorri hawliau dynol. Roedd rhywfaint o'r iaith a ddefnyddiwyd gan Ms B yn y gŵyn yn ymylu ar Erthygl 3 (triniaeth annynol a diraddiol), fodd bynnag, yn unol â dull gweithredu'r llysoedd, roedd yr Ombwdsmon o'r farn ei bod yn fwy priodol ystyried safbwyntiau a theimladau Ms B drwy ganolbwyntio ar Erthygl 8 (sy'n cwmpasu urddas ac ymreolaeth). Nododd hefyd bod Erthygl 9 (yr hawl i feddu ar gred grefyddol a dangos y cred honno) yn berthnasol yn yr achos hwn, o ystyried ffydd Ms B.

Yn ystod yr ymchwiliad, canfuwyd bod rhai tudalennau coll yng nghofnodion clinigol y babi a allai fod wedi achosi amheuaeth ar ragdybiaeth y Bwrdd Iechyd nad oedd y babi wedi derbyn llaeth fformiwla. Wrth ddadansoddi'r holl gofnodion, nodwyd bod cofnodion clinigol Ms B yn gyflawn. O'u darllen ochr yn ochr â chofnodion y babi, roedd yn amlwg bod bwydo ar y fron wedi'u dogfennu drwy'r cofnodion. Ac eithrio unwaith, am ychydig funudau (i dawelu'r babi pan oedd Ms yn gorffwys), nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y babi wedi'i chymryd oddi ar Ms B. Ni chadarnhawyd y cwynion hyn. Mewn cysylltiad â'r archwiliad o'r wain, nid oedd yn bosibl dweud sut y gofynnwyd i Ms B gydsynio i gael un, ond nododd yr Ombwdsmon bod yr archwiliad o'r wain (gyda chydsyniad) yn broses angenrheidiol er mwyn sefydlu cynnydd yr esgoriad. Roedd y Bwrdd Iechyd wedi parchu dymuniadau Ms B pan wrthododd roi ei chydsyniad y tro cyntaf y cynhaliwyd un (gan feddyg benywaidd). Pan oedd angen cynnal toriad

Cesaraidd, roedd dau feddyg yn bresennol yn y theatr – un benywaidd ac un gwrywaidd. Y meddyg benywaidd oedd yn gyfrifol am esgor babi Ms B yn ddiogel, ond yna cafodd ei galw i fynychu argyfwng geni arall ar y ward. Hi oedd yr uwch aelod o staff y noson honno. Roedd y Bwrdd Iechyd eisoes wedi ymddiheuro am hyn, gan ddweud nad oedd unrhyw ddewis yn yr amgylchiadau y noson honno ond caniatáu i feddyg gwrywaidd gwblhau'r weithdrefn, yr oedd yn gymwys i'w chyflawni.

Wrth nodi hawliau Ms B mewn cysylltiad ag Erthygl 8 ac Erthygl 9, nododd yr Ombwdsmon bod y Bwrdd Iechyd wedi rhoi sylw dyledus i anghenion diwylliannol Ms B a'u bod wedi parchu ei dymuniadau gymaint â phosibl. Ac eithrio hyn roedd Ms B wedi derbyn gofal gan aelodau o staff benywaidd drwy gydol ei harhosiad. O ystyried anghenion mamau eraill ar gyfnod prysur, pan oedd Ms B eisoes wedi esgor ei babi yn ddiogel, ystyriwyd bod gan y Bwrdd Iechyd yr hawl i ymyrryd â hawliau Ms B. Roedd hyn er mwyn sicrhau y gellir rhoi sylw dyledus i'r un hawliau a oedd gan famau eraill a oedd angen gofal meddygol, er mwyn sicrhau genedigaeth ddiogel eu babanod y noson honno. Mae Erthygl 8 yn hawl amodol ac mae gan gorff cyhoeddus hawl i bwysu a mesur amgylchiadau. Dangoswyd hefyd bod gan y Bwrdd Iechyd hawl i fabwysiadu agwedd debyg mewn cysylltiad ag Erthygl 9 oherwydd roedd wedi gwneud popeth y gallai i ddiogelu gofynion crefyddol Ms B trwy gydol ei harhosiad ac yn yr amgylchiadau cyffredinol. Ni chadarnhawyd y gŵyn gan yr Ombwdsmon, fel y'i cyflwynwyd. Fodd bynnag, nododd y gallai'r cyfathrebu gyda Ms B fod yn well drwyddi draw, ac yn y theatr ar y pryd. Gallai fod wedi golygu mwy o ddealltwriaeth o'r sefyllfa yn gynnar (a allai fod wedi osgoi'r gŵyn). Argymhellodd ymddiheuriad a rhywfaint o iawn ariannol am y methiant cyfathrebu.

**201701203** [Addysg AAA]

### **Cyngor Sir Ddinbych**

Cwynodd Mrs X bod y Cyngor wedi methu ystyried cynnal asesiad o anghenion addysgol ei phlentyn, B, am flwyddyn. Cwynodd hefyd nad oeddent wedi cwblhau asesiad o fewn yr amserlen berthnasol, yn dilyn ildio ei hapêl i'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig. Yn olaf, cwynodd Mrs X bod y Cyngor wedi gwahaniaethu yn erbyn B, a oedd yn dioddef salwch meddwl hysbys, gyda'r sylwadau a wnaeth yn ystod y broses asesu.

Canfu'r Ombwdsmon fethiannau yn yr achos a chadarnhaodd y rhan fwyaf o'r gŵyn. Wrth wneud hynny nododd bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn berthnasol yn yr achos hwn (Erthyglau 12 a 13 – rhyddid mynegiant a meddwl a chred). Roedd gan B hawl i fynegi barn a chyfrannu at yr asesiad o anghenion. Cydnabu'r Ombwdsmon bod y Cyngor wedi gwneud addasiad rhesymol (fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) ac ymweld â B yn y cartref i gynnal yr asesiad (nid ei arfer arferol) ac wedi ceisio casglu barn B.

Er nad oedd yn fater iddo wneud canfyddiadau o wahaniaethu, er hynny roedd yr Ombwdsmon o'r

farn nad oedd sylwadau'r Cyngor ar y mater wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i salwch meddwl B a bod diffyg tystiolaeth i awgrymu mai dewis B oedd peidio ag ymgysylltu yn y broses asesu. Dyna pam yr oedd Mrs X o'r farn bod y Cyngor wedi gwahaniaethu yn erbyn B. Gofynnwyd i'r Cyngor adlewyrchu ar ganfyddiadau a sylwadau'r Ombwdsmon.

**201803094** [lechyd – y drefn briodol a bywyd teuluol ar ddiwedd bywyd]

### **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Cwynodd Ms Y am y gofal a'r driniaeth a dderbyniodd ei phartner, Mr Z, yn yr ysbyty a'i bod hi wedi derbyn triniaeth annheg. Cwynodd Ms Y nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi ystyried hawliau dynol Mr Z pan gyflwynodd weithdrefnau diogelu a phan benderfynodd na ddylid ei ddadebru. Cwynodd Ms Y hefyd am y ffordd yr ymdriniwyd â'i chwyn.

Canfu'r ymchwiliad bod y Bwrdd Iechyd wedi methu gwneud atgyfeiriad canser brys ar gyfer Mr Z ac na chafodd canfyddiadau'r sgan eu hadrodd yn llawn i Mr Z a Ms Y. O ganlyniad, nid oeddent wedi gallu ystyried pa opsiynau a oedd ar gael iddynt nac i gael trafodaethau ystyrlon am y sefyllfa. Er bod gan y Bwrdd Iechyd bryderon diogelu ynghylch Mr Z (oherwydd gweithredoedd honedig Ms Y), roedd y wybodaeth a gofnodwyd am hyn yn anghyson. Methodd y Bwrdd Iechyd â thrafod y materion hyn gyda Ms Y neu weithredu arnynt, nes y daeth yn bryderus am ymddygiad Ms Y at staff ar y Ward. Canfu'r ymchwiliad hefyd bod y Bwrdd Iechyd wedi defnyddio'r broses ddiogelu i gyfyngu mynediad Ms Y i'r Ward, yn hytrach na'i bolisi o ddelio ag ymddygiad ymosodol, gan wadu'r cyfle i Ms Y drafod y pryderon hyn a hefyd unrhyw hawl i apelio yn erbyn y cyfyngiad, y byddai'r polisi hwnnw wedi'i ganiatáu. Wrth osod cyfyngiad o'r fath yn y dull hwn, dywedodd yr Ombwdsmon bod y Bwrdd Iechyd wedi methu â rhoi ystyriaeth lawn i hawl Mr Z a Ms Y i fywyd teuluol (Erthygl 8). Methodd hefyd i sicrhau bod gan Mr Z lais yn y penderfyniad a gymerodd. Er y rhoddwyd sicrwydd i Ms Y y byddent yn cysylltu â hi pe byddai cyflwr Mr Z yn dirywio, ni wnaethant hyn. Bu farw Mr Z ar y diwrnod pan oedd Ms Y wedi'i hatal rhag ymweld â'r Ward. Canfu'r Ombwdsmon fod hyn yn anghyfiawnder sylweddol i Mr Z ac i Ms Y.

Gwnaed nifer o argymhellion gan yr Ombwdsmon, gan gynnwys adolygiad o'r polisiau perthnasol, gyda chyfeiriad penodol at gydbwyso materion hawliau dynol ac adolygu gwybodaeth gyfredol staff a allai fod yn gysylltiedig â chydbwyso materion hawliau dynol wrth wneud penderfyniadau.

**201807750 a 201807994** [Iechyd – diwedd bywyd]

### **Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a phractis Meddygon Teulu yn ei ardal**

Bu oedi cyn i Mr C, oedd â phroblemau iechyd eraill, dderbyn diagnosis o fethiant yr afu ac adolygiad o'i gymhwyster ar gyfer trawsblaniad afu. Yn anffodus, bu farw M C yn ddiweddarach. Canfu Cynghorydd Clinigol i'r Ombwdsmon y byddai wedi bod yn annhebygol i Mr C fod wedi derbyn trawsblaniad afu o ystyried difrifoldeb ei glefyd yr afu ac oherwydd ei broblemau iechyd eraill. Canfu'r Ombwdsmon bod y ffaith na chafodd Mr C a'i deulu eu hysbysu ynglŷn a natur angheuol ei fethiant yr afu, wedi golygu na roddwyd unrhyw gyfle iddynt baratoi ar gyfer ei farwolaeth na chynllunio ei ofal diwedd bywyd. Gan roi sylw ar hawliau Erthygl 8 Mr C a'i deulu yn yr achos hwn, dywedodd yr Ombwdsmon:

*“Dylent fod wedi derbyn y wybodaeth, a'r amser, i ddeall ac i ddod i delerau â diagnosis Mr C ac i baratoi ar gyfer y canlyniad yn y pen draw. Roedd y ffaith na roddwyd y cyfle hwn iddynt wedi effeithio ar hawliau Mr C fel unigolyn ac ar anghenion ehangach ei deulu fel rhan o fywyd teuluol.”*

Canfu'r Ombwdsmon fod hyn yn anghyfiawnder sylweddol i Mr C a'i deulu. Gofynnodd i'r clinigwyr a oedd yn gysylltiedig ag achos Mr C i adlewyrchu ar y canfyddiadau a'r casgliadau a gafwyd.

**201802486** [Iechyd – claf oedrannus a'r risg o gwympiadau]

### **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Cwynodd Mr A am y gofal a dderbyniodd ei fam 94 oed, Mrs B, ar ôl iddi gael ei derbyn yn yr ysbyty. O fewn ei gwynion roedd pryderon bod asesiadau risg annigonol wedi'u cynnal mewn cysylltiad â'i fam yn dod allan o'r gwely a chwympo ac roedd oedi afresymol wrth sefydlu ei bod wedi torri ei phelfis.

Er na chynhaliodd nifer o gwynion clinigol Mr A, fe gynhaliodd yr Ombwdsmon y gŵyn ynglŷn â'r asesiad risg annigonol a nodwyd bod Mrs B yn dueddol o grwydro oddi ar y ward ond nad oedd wedi derbyn ffrâm gerdded nac esgidiau addas ar adeg ei chwymp. Canfuwyd gwifrau o fonitor cardiaidd hefyd wedi clymu o amgylch coesau Mrs B. Dywedodd yr Ombwdsmon, mewn cysylltiad â phobl hŷn, fel Mrs B, y dylai'r Bwrdd Iechyd fod wedi canolbwyntio ar atal, triniaeth ac adsefydliad er mwyn sicrhau y gallai Mrs B gynnal symudedd ac ymreolaeth cyhyd ag y bo modd, sydd wedi'u hymgorffori yng ngofynion Erthygl 8. Roedd y cwmp wedi cael effaith sylweddol ar ymreolaeth Mrs B. O'r dystiolaeth, byddai mesurau priodol wedi gallu atal hyn. Argymhellodd bod y nyrsys ar y ward yn derbyn hyfforddiant ar faterion atal cwympiadau a'r materion a nodwyd yn yr adroddiad hwn.



**201806802** [Gwasanaethau Cymdeithasol a darpariaeth gofal]

### **Cyngor Sir Penfro**

Cwynodd Mrs X, a dderbyniodd ddiagnosis o gyflwr angheuol, nad oedd y Cyngor wedi asesu ei hanghenion gofal mewn dull amserol, ni ddarparwyd cymorth ganddynt i gyflawni ei hanghenion mewn dull amserol ac ni roddwyd ystyriaeth briodol i'w hamgylchiadau personol. Cwynodd Mrs X hefyd nad oedd y Cyngor wedi delio â'i chwyn yn briodol.

Cadarnhaodd yr Ombwdsmon pob un o'r pedair agwedd ar gŵyn Mrs X. Canfu na oedd anghenion gofal Mrs X wedi'u hasesu o fewn amserlen y Cyngor ei hun ar gyfer cynnal asesiadau safonol, er bod ganddi salwch angheuol, ac o ganlyniad, ni dderbyniodd Mrs X y cymorth oedd ei angen i gyflawni ei hanghenion mewn dull amserol neu, mewn gwirionedd, os o gwbl. Fe achosodd hyn anghyfiawnder sylweddol i Mrs X a bu'n rhaid iddi ymdopi heb gymorth ac mewn cyflwr gwan.

Canfu'r ymchwiliad y dylai'r Cyngor fod wedi ystyried amgylchiadau personol Mrs X, yn benodol ei chyflwr angheuol, a chyflymu ei hasesiad. Roedd methiant i wneud hynny yn fethiant gwasanaeth a achosodd anghyfiawnder sylweddol i Mrs X.

Dywedodd yr Ombwdsmon hefyd bod yr achos yn ysgogi hawliau Mrs X o dan Erthygl 8 y Confensiwn am na allai fyw ei bywyd mor annibynnol â phosibl am gyhyd â phosibl. Nid oedd yr Ombwdsmon yn fodlon bod y Cyngor wedi rhoi ystyriaeth briodol i hawliau dynol Mrs X, nac wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, o ystyried anabledd Mrs X (ei chyflwr angheuol).

Bu i'r Ombwdsmon wneud nifer o argymhellion gan gynnwys hyfforddi'r tîm perthnasol, diwygio polisiâu perthnasol a chyfeirio'r achos at ei swyddog Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

**201806111** [Iechyd – cyfathrebu a diwedd bywyd]

### **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Cwynodd Mr Y am y gofal a roddwyd i'w ddiweddar bartner, Ms X, a oedd wedi derbyn diagnosis o mesothelioma (math o ganser sy'n datblygu yn y leinin sy'n gorchuddio arwyneb allanol organau'r corff; yr ysgyfaint yn bennaf). Roedd Y yn bryderus ynghylch cyfleoedd a gollwyd ar gyfer atgyfeiriadau / triniaeth gynharach ac ynghylch gofal lliniarol / profiad diwedd bywyd Ms X.

Gyda chymorth cyngor gan ei gynghorwyr proffesiynol ("y Cynghorydd/Cynghorwyr"), nododd yr Ombwdsmon nad oedd unrhyw ganllawiau cenedlaethol mewn grym ar adeg y digwyddiadau ar reoli mesothelioma. Dywedodd y Cynghorydd y gellid bod wedi cadarnhau diagnosis Ms X tua 3 mis yn gynharach er na wnaeth hynny effeithio'n andwyol ar ei dewisiadau triniaeth o ystyried y byddai'r cemotherapi y gellid bod wedi'i gynnig ond wedi ymestyn ei bywyd o tua 3 mis. Ni ymatebodd tiwmor Ms X ac er nad oedd unrhyw dreialon clinigol y gallai fod wedi bod yn gymwys ar eu cyfer, cydnabu'r Cynghorydd y gallai Ms X fod wedi elwa ar ddiagnosis cynharach yn nhermau ei gofid seicolegol ynglŷn â diagnosis ansicr, a'i helpu i gynllunio. Mynegwyd pryder hefyd gan y Cynghorydd ynglŷn â

chyfathrebu gyda Ms X ynglŷn â'i chyflwr oherwydd roedd yn amlwg na thrafodwyd rhai canlyniadau gyda hi ac ni chafodd ei hatgyfeirio'n gynnar i gael cymorth gan nyrsys arbenigol canser yr ysgyfaint (Nyrsys Macmillan). Er bod ei gofal clinigol yn briodol ar y cyfan, gallai trafodaeth gynharach fod wedi galluogi i Ms X gael ei derbyn mewn hosbis yn gynharach.

Canfu'r Ombwdsmon bod yr oedi cyn cyfeirio at Nyrsys Macmillan ar methiannau cyfathrebu yn eu tro a arweiniodd at oedi cyn derbyniad yn yr hosbis wedi achosi anghyfiawnder i Ms X a Mr Y. Golygodd y methiannau cyfathrebu na roddwyd cyfle i Ms X fynegi barn ar ei thriniaeth, a gwadwyd y cyfle iddi hi a Mr Y gynllunio a pharatoi'n briodol ar gyfer y canlyniad yn y pen draw. Ychwanegodd yr Ombwdsmon y byddai hyn wedi ychwanegu'n sylweddol at ofid Ms X a Mr Y mewn cyfnod a oedd eisoes yn un anodd iawn iddynt.

**201903187** [Iechyd – Deddf Cydraddoldeb – gofal claf gydag anableddau dysgu]

### **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Cwynodd Mrs W am y gofal nyrsio a dderbyniodd ei mab, Mr X, yn dilyn llawdriniaeth ar yr abdomen a methiant staff i ddarparu ar gyfer ei anabledd. Roedd ei chwynion yn cynnwys oedi wrth newid dillad gwely/dillad Mr X pan oedd angen, i'r graddau ei bod wedi dweud bod ei mab “wedi'i orchuddio â'i chŵyd ei hun am oriau”. Hyd yn oed ar ôl cael ei lanhau, dywedodd Mrs W bod Mr X yn parhau i wisgo gŵn budr oherwydd dywedodd nad oedd unrhyw rai eraill ar gael ar y Ward. Dywedodd bod hyn yn cyfaddawdu ei urddas. Canfu'r ymchwiliad nad oedd y “system goleuadau traffig” a oedd ar waith gan y Bwrdd Iechyd, er mwyn sicrhau bod anghenion claf ag anabledd dysgu yn cael eu deall a'u cyflawni, wedi'i gweithredu yn achos Mr X am 10 diwrnod ar ôl ei dderbyn. Felly, nid oedd cynllun gofal wedi'i bersonoli ar gyfer Mr X ac felly ni wnaed unrhyw addasiad rhesymol i sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer ei anabledd dysgu yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb (“y Ddeddf”), ac felly ni chafodd gyfrannu mewn penderfyniadau ynglŷn â'i ofal. Canfu'r Ombwdsmon bod y methiant hwn yn anghyfiawnder i Mr X oherwydd, pe byddai wedi deall beth oedd yn digwydd, ac y byddai wedi gallu cyfrannu at rai penderfyniadau ynglŷn â'i ofal, mae'n bosibl y byddai'r digwyddiadau wedi achosi llai o ofid iddo.

O ran y mater o ddillad, roedd y Bwrdd Iechyd wedi ymddiheuro am yr oedi wrth newid Mr X, gan ddweud na fyddai'r staff nyrsio wedi gadael Mr X mewn gŵn budr a gwlyb yn fwriadol. Roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod cysylltiad rhwng hyn, yn rhannol, â'r methiant i ddarparu ar gyfer anabledd dysgu Mr X. Nid oedd unrhyw gofnod o'r ymdrechion y dywedodd y Bwrdd Iechyd a wnaed i ddarparu gofal 1 i 1 i Mr X ac nid oedd unrhyw ddogfennaeth asesedig i gefnogi angen o'r fath. Pe byddai wedi derbyn gofal 1 i 1 yna gellid bod wedi lleihau'r oedi cyn newid ei ddillad gwely/dillad. Daeth i'r casgliad:

*“Yn yr achos hwn, roedd hawliau Erthygl 8 y Confensiwn, yn benodol, hawl Mr X i wneud dewisiadau personol ynghylch ei fywyd ac i gael ei drin gydag urddas, wedi'u hysgogi, ac mae'n ymddangos i mi na roddodd y Bwrdd Iechyd sylw digonol i hyn.”*

Gwnaeth argymhellion i'r staff dderbyn hyfforddiant diweddarau ar y system goleuadau traffig a phwysigrwydd sicrhau bod anghenion cleifion gydag anabledd dysgu yn cael eu cofnodi a'u cyflawni. Dylai hyfforddiant o'r fath gynnwys dealltwriaeth o'r effaith o beidio dilyn y broses, fel yn yr achos hwn, ar berson ag anabledd dysgu ac, o ganlyniad i hynny, y gofal maent yn ei ddarparu.

**201803704 a 201803703** [Iechyd – Deddf Cydraddoldeb – methiant i ddarparu addasiad rhesymol, tynnu oddi ar y rhestr cleifion a gwahaniaethu honedig]

### **Dau bractis meddyg teulu yn hen ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**

Roedd gan Ms A ddiagnosis o anhwylder personoliaeth ffiniol ac roedd wedi dioddef gorbryder ac iselder. Roedd yn hysbys i'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol. Cafodd ei thynnu oddi ar restr cleifion Practis meddygon teulu arall oherwydd, dywedodd, methiant yn y berthynas rhwng y claf /meddyg. Caniateir hyn. Rhoddwyd Ms A ar restr cleifion Practis A (cyf achos 201803704) er ei bod yn byw y tu allan i'w hardal. Disgwylir i gleifion gofrestru fel arfer gyda'r Practis sy'n cwmpasu'r ardal lle maent yn byw. Tynnwyd Ms A oddi ar restr Practis A a chafodd ei rhoi ar gofrestr Practis B (cyf achos 201803703).

Cwynodd Ms A ei bod wedi gofyn i gael parhau ar restr Practis A, ond eu bod wedi penderfynu ei thynnu oddi ar y rhestr. Dywedodd bod hyn yn afresymol o ystyried ei hanabledd a'i bod wedi gwneud y cais fel addasiad rhesymol. Dywedodd bod y penderfyniad wedi achosi iddi deimlo gorbryder ac mewn "lle agored i niwed." Cwynodd hefyd bod Practis A wedi trosglwyddo gwybodaeth a oedd yn ffeithiol anghywir ac yn amhriodol amdani i Bractis B. O ran Practis B, cwynodd Ms A eu bod wedi gofyn iddi lofnodi "Contract Ymddygiad Derbyniol" o ran cael mynediad at wasanaethau a gofal yn ystod ei hymweliad cyntaf. Bu ei chysylltiadau dilynol gyda Practis B (a gwasanaeth tu allan i oriau) dros y ffôn. Cwynodd Ms A nad oedd wedi gallu gweld meddyg teulu ar dri achlysur gwahanol. Dywedodd ei bod wedi teimlo "dan orfodaeth" pan ofynnwyd iddi lofnodi'r Contract Ymddygiad Derbyniol a bod hyn yn ofyniad afresymol. Dywedodd hefyd bod y ffaith nad oedd y meddygon teulu wedi'i gweld yn gwahaniaethu yn ei herbyn oherwydd ei materion iechyd meddwl. Honnodd fod hyn wedi'i rhoi o dan anfantais.

Nododd yr Ombwdsmon bod Practis Meddygon Teulu, at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 ("y Ddeddf") yn cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn rhinwedd eu contract gyda'r Bwrdd Iechyd i ddarparu gofal fel rhan o'r GIG. Felly, mae'r dyletswyddau a nodir, gan gynnwys gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer person anabl, yn berthnasol. Felly, mae'n rhaid i feddygon teulu, fel pob corff cyhoeddus, ystyried y nodau cydraddoldeb a gyflwynir yn y Ddeddf wrth wneud penderfyniadau, llunio polisiau a chyflenwi gwasanaethau.

Nododd yr Ombwdsmon, oherwydd iechyd Ms A a'r materion a godwyd, er enghraifft y cais am addasiad rhesymol, roedd y Ddeddf yn berthnasol i'w chwyn ac er nad mater iddo ef oedd penderfynu'n bendant ar dramgwydd byddai'n gwneud sylwadau ar y materion a godwyd. Roedd yn fodlon bod y Rheoliadau perthnasol (rhesymau cyfeiriad) yn caniatáu i Bractis A dynnu Ms A oddi ar eu rhestr ac nad oedd unrhyw resymau clinigol dros benderfynu bod y penderfyniad hwnnw'n amhriodol. Er hynny, roedd yn feirniadol o'r ffordd y methodd Practis A gyfleu'n ddigonol eu rhesymau dros wneud hynny'n glir i Ms A, i'r graddau bod y methiant wedi achosi "gofid dealladwy y gellir ei osgoi" i Ms A. Hefyd, nid oedd yr Ombwdsmon yn fodlon, ar y dystiolaeth a gyflwynwyd iddo, ar yr adeg y gwnaeth Ms A gais am addasiad rhesymol, bod Practis A wedi ystyried hynny'n briodol, nac ar y pryd, yn ysbryd y Ddeddf. Roedd yn bryderus bod Practis A yn awgrymu na fyddai'n ystyried cadw enw claf ar y rhestr fel addasiad rhesymol. Yn hynny o beth, roedd wedi methu arddangos ei bod wedi ystyried cais Ms A am addasiad rhesymol yn y modd a fwriadwyd gan y Ddeddf. Roedd y penderfyniad wedi achosi gofid i Ms A fel yr oedd wedi esbonio. Gofynnwyd i Bractis A gyflwyno polisi addasiad rhesymol.

O ran Practis B, dywedodd Cyngorydd yr Ombwdsmon ("y Cyngorydd") nad oedd y Contract Ymddygiad Derbyniol yn amhriodol ynddo'i hun oherwydd "yr oedd ond yn gofyn i'r claf gytuno i ymddygiad a fyddai'n cael ei ystyried yn dderbyniol fel arfer ar gyfer unrhyw glaf." Er hynny, cwestiynodd y defnydd ohono yn achos A am nad oedd wedi'i thynnu oddi ar restr Practis A am resymau ymddygiad, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth ategol i ddangos ei bod wedi arddangos ymddygiad i gyfiawnhau gofyn iddi ei lofnodi ar y diwrnod y gofynnwyd iddi (ar ei hymweliad cyntaf). Mynegodd bryder ynglŷn â byrder llawer o'r cofnodion clinigol a wnaed gan Bractis B, er yn glinigol, nid oedd unrhyw beth i awgrymu bod iechyd Ms A wedi effeithio ar yr ymgynghoriadau (dros y ffôn yn bennaf) a gafodd. Wrth gydnabod bod angen llofnodi Contractau Ymddygiad Derbyniol weithiau, ac na ddylai meddygon teulu a'u staff ddioddef ymddygiad annerbyniol, nododd yr Ombwdsmon ei bod yn ymddangos yn annheg yn yr amgylchiadau i Bractis B ofyn i Ms A lofnodi un pan wnaeth. Roedd pryderon Ms A yn ddigonol i fod yn berthnasol i'r Ddeddf, ym marn yr Ombwdsmon, a mynegodd bryder ynghylch anallu Practis B i ddangos ei bod wedi ystyried ei dyletswyddau o dan y Ddeddf cyn gofyn iddi lofnodi'r Contract. Gofynnwyd i Bractis B ymddiheuro.

**201902717** [Iechyd – bywyd preifat gan gynnwys iechyd meddwl]

## **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

### **Cefndir Cyfreithiol: Deddf Iechyd Meddwl 1983 (“y Ddeddf”)**

Mae'r Ddeddf yn ategu triniaeth person ag anhwylder meddyliol yn erbyn eu hewyllys. Mae hyn yn cynnwys cadw yn yr ysbyty o dan ei darpariaethau (a elwir yn aml yn 'gadw'). Pan fydd rhywun eisoes yn glaf ysbyty, mae a5 yn caniatáu i'w cadw am hyd at 72 awr os bydd meddyg perthnasol yn cadarnhau bod angen hynny. O dan a2, mae'n rhaid i'r unigolyn fod yn dioddef o anhwylder meddyliol ac mae'n rhaid cyfiawnhau eu cadw er budd eu hiechyd neu ddiogelwch (neu ddiogelwch eraill). Gallai fod gan rywun ag anhwylder bwyta anhwylder iechyd meddwl at ddiben y Ddeddf Iechyd Meddwl ac, os felly, gall gwrthod triniaeth sy'n peryglu eu hiechyd fod yn sail ar gyfer eu cadw a hefyd, mewn achosion difrifol, triniaeth orfodol. Mae'r Ddeddf yn datgan bod gan Weithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy bwerau cyfreithiol i ofyn i'r heddlu gludo unigolyn i ysbyty os oes rheswm dros gredu (ar ôl asesiad) bod y person yn dioddef o anhwylder meddyliol a bod angen triniaeth ysbyty arnynt.

### **Y gwyn**

Cwynodd Mrs A ynglŷn â materion a oedd yn gysylltiedig â llawdriniaeth a gynhaliwyd i ddelio â symptomau gastrig. Roedd ei phryderon yn cynnwys honiad bod ei anhwylder bwyta yn y gorffennol wedi dylanwadu ar benderfyniadau ynglŷn â'i gofal ar ôl y llawdriniaeth. Roedd Mrs A wedi dioddef o anorecsia yn ystod ei harddegau ond nid oedd yn hysbys i unrhyw wasanaeth anhwylderau bwyta ar adeg y digwyddiadau hyn (roedd yn 49 oed ar y pryd). Cwynodd hefyd sut yr oedd clinigwr y Bwrdd Iechyd wedi gweithredu wrth alw'r heddlu i'w chartref ar ôl iddi ryddhau ei hun o'r ysbyty'n ddisymwth ar ôl cael ei derbyn yno i ddelio â'i phroblemau gastrig parhaus ar ôl ei llawdriniaeth. Dywedodd Mrs A ei bod wedi gorfod cuddio yn yr atig gydag un o'i phlant, a oedd yn crio ac yn ofnus iawn, wrth i'w gŵr siarad gyda'r heddlu i'w darbwylllo nad oedd angen iddi ddychwelyd i'r ysbyty. Dywedodd bod y digwyddiad hwn, yn benodol, wedi achosi gofid sylweddol a pharhaus iddi hi a'i phlant.

Wrth gadarnhau rhai o agweddau clinigol cwynion Mrs A, ni chanfu'r Ombwdsmon unrhyw dystiolaeth bod yr oedi wrth gynnal rhai gweithredoedd wedi'i ddylanwadu gan briodoli symptomau parhaus Mrs A i'w anhwylder bwyta yn y gorffennol. Fodd bynnag, yn dilyn cyngor gan Gynghorydd Seiciatrig, dywedodd yr Ombwdsmon bod ymweliad yr heddlu i gartref Mrs A wedi bod yn amhriodol, yn seiliedig ar ddehongliad anghywir y clinigwr o'r pwerau a nodir yn y Ddeddf (gweler uchod). Ni chafwyd unrhyw gyfranogiad neu asesiad gan Weithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy (AMHP) yn achos Mrs A, ac roedd dystiolaeth yn dangos bod y clinigwr wedi drysu rhwng y gyfraith ar alluedd meddyliol a'r penderfyniadau ar gyfer triniaeth o dan 'gadw' a ddarperir gan y Ddeddf.

Ni sefydlwyd a oedd anhwylder bwyta Mrs A yn y gorffennol wedi cyfrannu at ei diffyg ymateb i driniaeth faethegol a materion gastrig. Dywedodd y Cyngorydd bod “cyfranogiad yr heddlu yn deillio o ddiffyg profiad a dealltwriaeth ddryslyd o alluedd a chadw” gan y clinigwr dan sylw.

Canfu'r Ombwdsmon bod y digwyddiad hwn hefyd yn ysgogi materion hawliau dynol. Dywedodd:

*“Wrth ddarllen y datganiadau a ddarparwyd i gefnogi'r gwŷyn, mae'n amhosibl peidio â chael eich effeithio gan yr hyn y mae'r plant wedi'i ysgrifennu, a'r ffordd y disgrifiodd Mrs A sut yr oedd yn teimlo ar y pryd.... Nid oes amheuaeth hefyd, yn fy marn i, bod Erthygl 8 yn cael ei ysgogi yma.... Fe achosodd presenoldeb yr heddlu, ar gais y Bwrdd Iechyd, ddigwyddiad gofidus ac amhariad ar fywyd y teulu cyfan ar [dyddiad]. Roedd diffyg parch i'w bywyd preifat a theuluol a barhaodd i gael effaith y tu hwnt i'r diwrnod hwnnw. Roedd hyn yn anghyfiawnder i'r teulu cyfan”.*

Argymhellodd yr Ombwdsmon y dylid ymddiheuro i Mrs A am y methiannau gofal a nodwyd ac i'r teulu am y gofid a achoswyd gan ddigwyddiad yr heddlu. Argymhellodd hefyd elfen o iawn ariannol er mwyn adlewyrchu'r gofid hwnnw. Yn ogystal, argymhellodd y dylai meddygon iau yn y tîm clinigol a fu'n trin Mrs A dderbyn hyfforddiant (gan gynnwys hyfforddiant diweddar pan fydd yn berthnasol) ar y gwahaniaeth rhwng capasiti a darpariaethau cadw Deddf Iechyd Meddwl, ac y dylai'r hyfforddiant gynnwys materion hawliau dynol hefyd. Yn dilyn hynny, dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried darparu'r hyfforddiant hwnnw i dimau clinigol eraill.

## Setliadau fel dewis arall i ymchwiliadau

Mae'r Ddeddf OGCC wedi fy ngalluogi i ystyried datrys cwyn fel dewis arall i ymchwiliad. Mae gan hyn y budd o alluogi i argymhellion ffurfiol gael eu gwneud er mwyn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu yn ogystal â darparu canlyniad mwy prydlon i achwynydd.

Gallaf ond gwneud hynny pan fydd yn gŵyn y gallwn fod wedi ymchwilio iddi a byddaf ond yn gwneud hynny mewn achosion sy'n briodol yn fy marn i.

Roedd yr enghraifft isod o setliad yn bosibl oherwydd y cafodd hawliau dynol a materion cydraddoldeb eu nodi a'u hystyried yn gynnar, a bu hynny'n hollbwysig er mwyn gallu datrys y gŵyn.

**201906728** [Gwasanaethau cymdeithasol oedolion – gwasanaethau anabled]d]

### Cyngor Caerdydd

Roedd Mr A wedi bod yn derbyn cymorth gan adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor ers 2009, i helpu gydag anghenion cymwys a oedd yn deillio o'i gyflyrau iechyd. Yn Awst 2017, fe gododd 89 o gwynion a oedd yn dyddio'n ôl i faterion o 2013. Bu'r rhain yn destun ymchwiliad annibynnol (o dan weithdrefn gwyno statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol - a elwir yn ymchwiliad Cam 2), a gwblhawyd yn Rhagfyr 2018. Cwynodd Mr A i'r Ombwdsmon ynglŷn â'r amser a gymerwyd gan y Cyngor i ymchwilio i'w bryderon, ac ynglŷn â methiant y Cyngor i gyflawni ei oblygiadau o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

Gwrthododd yr Ombwdsmon i ymchwilio i faterion y cwynion sylweddol o ystyried bod ymchwiliad trylwyr a chadarn eisoes wedi'i gynnal. Fodd bynnag, roedd o'r farn bod y canfyddiadau yn codi pryderon sylweddol ar lefel weinyddol, ac yn fwy eang yn nhermau pa mor effeithiol yr oedd y Cyngor wedi cyflawni ei rwymedigaethau o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

Canfu'r ymchwiliad Cam 2 bod y Cyngor wedi methu â dilyn y broses weinyddol gywir cyn lleihau pecyn gofal Mr A, gan arwain at ansicrwydd sylweddol ynghylch a oedd wedi cyflawni ei anghenion cymorth cymwys ac asesedig o 9 Mawrth 2016 o leiaf. Ar ôl Ionawr 2017, bu achlysuron pan fethodd y Cyngor â chyflawni ei ddyletswyddau statudol tuag at Mr A, ac na chafodd unrhyw ofal. Ar yr adegau hyn, cafodd ei amlygu i niwed posibl a byw yn gyffredinol heb fawr o ansawdd bywyd. Roedd yr Ombwdsmon hefyd o'r farn bod y Cyngor wedi methu ag ystyried effaith y newidiadau hyn ar urddas Mr A, ei allu i fyw'n annibynnol ac i arfer dewis a rheolaeth, a oedd yn ysgogi ei hawliau dynol o dan Erthygl 8.

Canfu'r ymchwiliad hefyd bod y Cyngor wedi ymddwyn mewn ffordd a oedd yn weithdrefnol annheg i Mr A drwy beidio rhoi digon o wybodaeth iddo ddeall sail y newidiadau a wnaed i'w becyn gofal, neu i'w herio. Roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod hyn yn ddigonol i ysgogi hawliau dynol Mr A o dan Erthygl 6.

Yn olaf, fe oeddodd y Cyngor wrth ymateb i rai o ganfyddiadau rhagarweiniol yr ymchwiliad i'r cwynion, a oedd yn golygu bod cyfleoedd wedi'u colli i unioni pethau cyn gynted â phosibl. Pan ymatebodd y Cyngor, ni wnaeth gydnabod na chynnig ymddiheuriadau diffuant am y methiannau sylweddol a nodwyd. Yn ogystal, ni wnaeth gydnabod effeithiau'r methiannau hynny ar Mr A.

Roedd yr Ombwdsmon yn feirniadol iawn o'r hyn a ddigwyddodd yn yr achos hwn a dywedodd mai elfen ganolog o gymhwyso hawliau dynol mewn termau ymarferol yw cydnabod y defnyddiwr gwasanaeth (Mr A) fel unigolyn a sicrhau bod y gofal mwyaf priodol i'w hanghenion yn cael ei ddarparu. Gwnaeth nifer o argymhellion, gan gynnwys ymddiheuriad a thaliad sylweddol o iawn ariannol o £9000. Roedd hyn yn adlewyrchu'r methiannau gweinyddol difrifol a ganfuwyd, a'u heffaith arwyddocaol ar Mr A, yn ogystal â dulliau gwael o ddelio â'r cwynion.



## Ni chadarnhawyd

Fel Ombwdsmon, rwy'n gweithredu'n ddiuedd. O ganlyniad, ar ôl craffu'r dystiolaeth, mae yna lawer o gwynion nad wyf yn eu cadarnhau, gan gynnwys rhai lle gallai'r achwynydd fod wedi codi hawliau dynol yn benodol.

**201803425** [Iechyd – iechyd meddwl]

### **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

#### **Cefndir Cyfreithiol: Deddf Iechyd Meddwl 1983 a2 (“y Ddeddf”) – gweler hefyd uchod**

Gellir derbyn a chadw claf mewn ysbyty am hyd at 28 diwrnod ar gyfer asesiad er budd eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain neu ddiogelwch eraill (adran 2 y Ddeddf). Mae hyn yn golygu y gellir effeithio'n gyfreithlon ar y rhyddid a roddir gan Erthygl 5. Mae'r Ddeddf hefyd yn caniatáu i'r perthynas agosaf ofyn am wrandawriad o fewn 72 awr i ofyn i'r claf gael ei ryddhau, ac yna gwneud cais i'r adolygiad cadw gael ei ystyried gan Dribiwnlys Iechyd Meddwl Cymru (“y Tribiwnlys”). Mae Cod Ymarfer y Ddeddf yn cwmpasu'r defnydd o neilltuaeth (cyfyngu'r claf i ystafell y gellir ei chloi), pe byddai angen, ond mae'n datgan y dylid ond defnyddio hyn fel y dewis olaf ac am y cyfnod byrraf posibl o amser.

### **Y gwyn**

Cwynodd Mrs J am ofal a thriniaeth ei merch, Ms L, pan oedd yn glaf mewnol mewn ysbyty iechyd meddwl arbenigol ar ôl cael ei derbyn ddechrau mis Gorffennaf. Yn dilyn cyfnodau lle'r oedd Ms L yn arddangos ymagwedd ymosodol at y staff ac eraill ar ôl cael ei derbyn, ar 15 Gorffennaf, penderfynodd y staff i ddefnyddio neilltuaeth am y tro cyntaf ar ôl i Ms L fod yn ymosodol yn gorfforol ac anafu 4 aelod o staff. Defnyddiwyd ystafell neilltuo ddwywaith yn y bore, er nad oedd y drysau wedi'u cloi tra'r oedd Ms L yn yr ystafell. Cafodd ei ddefnyddio eto yn y prynhawn a gyda'r nos am tua 2 awr. Mynegodd Mrs J bryderon ynglŷn â hyn a gofynnodd a fyddai'n bosibl rhyddhau Ms L iddi ofalu amdani gartref. Cafodd Ms L ei hadolygu a daeth allan o'r ystafell neilltuo. Ar 18 Gorffennaf, derbyniodd Ms L ganiatâd i fynd adref am wythnos (a ganiateir gan a17 y Ddeddf) a dychwelodd adref. Wythnos yn ddiweddarach cafodd ei rhyddhau o drefniadau cadw a2. Cwynodd Mrs J am agweddau amrywiol o ofal ei merch, gan ddweud nad oedd asesiad Ms L wedi bod yn ddigon trylwyr a diduedd, ac nad oedd Ms L wedi bod yn ymosodol, fel y nodwyd, yn hytrach roedd ganddi haint y llwybr wrinol (“UTI”) heb ei drin yn ogystal â phroblemau gastrig, a oedd wedi dwysáu ei hymddygiad.

Cwynodd Mrs J, fel perthynas agosaf ei merch, nad oedd wedi derbyn gwybodaeth ddigonol am sut i apelio 'cadw' Ms L, a'i bod wedi gofyn dro ar ôl tro iddi gael ei rhyddhau i fynd adref. Er bod y staff wedi dweud nad oedd gan Ms L alluedd, dywedodd Mrs J eu bod wedi caniatáu i'w merch wrthod gweld ei meddyg teulu neu eiriolwr ac roedd Mrs J wedi'i harswydo ar yr hyd o amser y cafodd merch ei neilltuo.

Wrth gynghori'r Ombwdsmon, dywedodd cynghorydd seiciatrig ("y Cynghorydd") ei bod yn anodd barnu a oedd angen neilltuo ar unrhyw achlysur penodol oherwydd fe'i defnyddiwyd heb fod yno. Fodd bynnag, nododd fod penderfyniadau'r staff wedi'u dogfennu'n glir a'u hadolygu'n rheolaidd, ac y gwnaed ymdrechion i sicrhau'r cyfnodau byrraf o neilltuad yn achos Ms L. Nododd fod y gwahaniaeth rhwng y ddau ddull a ddefnyddiwyd (cloi Ms L yn ei hystafell a defnyddio ystafell neilltuo ar wahân) yn anodd ei ddilyn. Er y cadarnhawyd agweddau ar bryderon Mrs J yn rhannol, roedd yr Ombwdsmon yn fodlon o'r dystiolaeth ddogfennol y rhoddwyd y wybodaeth angenrheidiol a phriodol i Mrs J ynglŷn â'r hawliau i apelio i Dribiwnlys. Felly, roedd ei chadw yn gyfreithlon ac nid oedd unrhyw ymyrraeth ag Erthygl 6. Er y nodwyd yr hyn a ddywedodd, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod Mrs J wedi gwneud ceisiadau ysgrifenedig ffurfiol i unrhyw un i'w merch gael dod adref. Roedd y Cynghorydd yn fodlon ar y cyfan â'r gofal a roddwyd i Ms L - rhagnodwyd gwrthfotigau iddi ar gyfer yr UTI, ond parhaodd ei hymddygiad aflonydd, er i'r Cynghorydd gredu bod diffyg mewnbwn gan uwch aelod o staff wrth ddelio â Ms L ar adegau.

Wrth nodi safbwyntiau cryf Mrs J, ar neilltuad yn benodol, dywedodd yr Ombwdsmon nad oedd y trothwy ar gyfer Erthygl 3 (yn nhermau triniaeth ddiraddiol) wedi'i gyflawni, aeth ymlaen i ystyried a oedd wedi effeithio ag urddas Ms L yng nghyd-destun Erthygl 8. O ystyried safbwyntiau'r Cynghorydd, roedd yr Ombwdsmon yn fodlon bod y camau a gymerwyd i neilltuo Ms L wedi bod yn angenrheidiol. Yn ogystal, roedd y ffaith bod Erthygl 8 yn hawl gymwysedig yn golygu bod y penderfyniadau neilltuo wedi'u cymryd er mwyn diogelu Ms L rhag niwed ond hefyd er mwyn diogelu eraill (staff a chleifion eraill).

## Sut i gysylltu â ni

Ffôn 0300 790 0203

E-bost [holwch@ombwdsmon.cymru](mailto:holwch@ombwdsmon.cymru)

Ewch i'r wefan [www.ombwdsmon.cymru](http://www.ombwdsmon.cymru)

Ysgrifennwch at: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: [@OmbudsmanWales](https://twitter.com/OmbudsmanWales)